

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**  
**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Llun, 29 Gorffennaf 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyngorydd D Williams    Y Cyngorydd S Bradwick  
Y Cyngorydd S Powderhill    Y Cyngorydd T Williams  
Y Cyngorydd W Lewis    Y Cyngorydd S Morgans  
Y Cyngorydd A Cox    Y Cyngorydd P Howe

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd  
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol  
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd  
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol  
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Trwyddedu  
Ms M Richards, Swyddog Trwyddedu  
PC Whittle - Heddlu De Cymru

**10        YMDDIHEURIADAU**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol E. Webster a M. Diamond.

**11        DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**12        DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DEDDF TROSEDD AC ANRHEFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**13        COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2019 yn rhai cywir.

**14 YSTYRIED TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 27.05.19 - 14.07.19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 27 Mai 2019 i 14 Gorffennaf 2019 a **PHENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**15 PENDERFYNU AR ADDASRWYDD YMGEISWYR A DALWYR TRWYDDED AR GYFER CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Diogelwch y Cyhoedd yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y 'Canllawiau ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai ym maes cerbydau hacni a hurio preifat', sydd newydd eu cyhoeddi. Cafodd y Canllawiau eu llunio a'u cyhoeddi gan yr Athrofa Drwyddedu. Maen nhw'n cynnwys argymhellion ar gyfer y polisi presennol ynglŷn ag euogfarnau a rhybuddion ar gyfer gyrwyr cerbydau hacni a gyrwyr cerbydau hurio preifat, a gweithredwyr cwmnïau hurio preifat. Maen nhw'n argymhell diwygio'r rhain i gynnwys argymhellion y canllawiau newydd.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Adran 3.10 yr adroddiad, sy'n amlinellu prif newidiadau'r Canllawiau:

- 1) Cadw at y canllawiau cyhoeddedig wedi'u diwygio ynglŷn â phennu addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai ym maes cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;
- 2) Dileu troseddau penodol, a mabwysiadu dull mwy cyffredinol tuag at bennu mathau o droseddau, fel y mae canllawiau'r Athrofa Drwyddedu yn ei argymhell.
- 3) Cyfnodau amser mwy penodol, cadarn a llym i'w hystyried yn dilyn euogfarn;
- 4) Rheol glir lle mae'r awdurdod trwyddedu yn nodi 'rhaid' neu 'byth', er y dylid cofio bod hyn yn fater polisi yn unig, a ddim yn benderfyniad statudol, ac mae modd symud oddi wrth y penderfyniad yma; a
- 5) Chynnwys Cofrestr Genedlaethol Gwrthod a Dirymu (NR3) – mae Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan wedi argymhell hyn, yn ogystal â'r Athrofa Drwyddedu.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod gan RCT ganllawiau cynhwysfawr, a gofynnon nhw am eglurhad mai'r safonau uwch yn unig a fyddai'n cael eu mabwysiadu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod hynny'n gywir. Trafododd yr Aelodau y Cynllun Dirprwyo cyffredol a fyddai'n cefnogi cyflwyno'r Canllawiau polisi a chytunon nhw fod y broses ar gyfer pennu a yw trwydded yn cael ei dirymu yn cael ei hadolygu a'i chryfhau er mwyn cynnwys ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r Cynllun Dirprwyo diwygiedig yn cael ei gynnwys yn y Polisi newydd.

Roedd y Pwyllgor yn hapus gyda'r canllawiau newydd a **PHENDERFYNWYD**:

- a) Derbyn y newidiadau i'r Canllawiau Polisi; ac
- b) Argymhell y newidiadau i'r Cabinet i'w cymeradwyo gydag argymhelliad pellach y dylid gweithredu'r Polisi newydd cyn gynted ag sy'n ymarferol.

## 16 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 17 YSTYRIED Y CEISIADAU CANLYNOL AR GYFER TRWYDDEDU A/NEU GOFRESTRU:

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant yn gynharach ynglŷn ag Eitem 7.1 (Cofnod Rhif 11), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Cox y cyfarfod.)

- (1) Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion y cais canlynol am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr SRLW o'r Porth ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais yn amodol ar y telerau ac amodau safonol arferol gyda rhybudd ynglŷn â gweithgarwch yn y dyfodol.

(**Nodwch:** Cyn i'r Ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd a oedd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, dychwelodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Cox i'r cyfarfod.)

- (2) Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion y cais canlynol am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr RJ o'r Porth ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais yn amodol ar y telerau ac amodau safonol arferol gyda rhybudd ynglŷn â gweithgarwch yn y dyfodol.

(**Nodwch:** Cyn i'r Ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd a oedd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

- (3) Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion y cais canlynol am adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr DJT o'r Pentre ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais am adolygiad o Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat ger bron y Pwyllgor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth o'u blaenau, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor adael i'r drwydded barhau, gyda rhybudd mewn perthynas â gweithgaredd yn y dyfodol.

**(Nodwch:** Cyn i'r Ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd a oedd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

- (4) Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion y cais canlynol am adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr EMO o Gaerdydd ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais am adolygiad o Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat ger bron y Pwyllgor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ddirymu'r drwydded ar unwaith oherwydd bod Mr EMO wedi methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

**18 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 01.06.2019 - 20.07.19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apelïadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 1 Mehefin 2019 tan 20 Gorffennaf 2019.

Roedd un Aelod yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r adran am weithredu pan mae'r Aelodau'n cyfleu eu pryderon.

**PENDERFYNODD** yr Aelodau gydnabod y diweddariad.

**19 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 27.05.19 - 14.07.19**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 27 Mai 2019 i 14 Gorffennaf 2019.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gydnabod y diweddariad.